Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Meithrinfa Miri Mawr**
**19 Heol Gabalfa**
**Gogledd Llandaf**
**Caerdydd**
**CF14 2JH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Meithrinfa Miri Mawr, sydd wedi ei leoli yng Ngogledd Llandaf, yn awdurdod lleol Caerdydd.  Mae ar agor am bum dydd yr wythnos ac mae gan y lleoliad 15 ymarferwr.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 36 o blant mewn sesiwn.  Mae'n derbyn plant dan wyth blwydd oed.  Ar adeg yr arolygiad, mynychodd un plentyn tair blwydd oed, a ariennir gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig.  Mae llawer o blant yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.  Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd y perchnogion ei swyddi ym mis Medi 2001.  Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mawrth 2015.  Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Hydref 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynllunio rhagorol o brofiadau dysgu
- darpariaeth ragorol o'r Gymraeg
- addysgu effeithiol
- perthnasau cadarnhaol iawn rhwng oedolion a phlant
- cydweithrediad effeithiol rhwng ymarferwyr
- gofal diwyd o'r plant
- amgylchedd dysgu ysgogol tu mewn ac yn yr awyr agored
- adnoddau o ansawdd uchel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gwaith ymrwymiedig gan y perchnogion cefnogol
- darpariaeth bwrpasol a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan y perchnogion a'r ymarferwyr
- eglurder o weledigaeth gan y perchnogion ar sut i wella'r lleoliad
- systemau hunanarfarnu rheolaidd a phriodol
- agweddau cadarnhaol a gweithredol gan ymarferwyr tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- defnydd effeithiol o wasanaethau cymorth fel yr awdurdod lleol
- perthynas effeithiol gyda rhieni a gofalwyr

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod blaenoriaethau'r cynllun gweithredu'n deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn darparu cwricwlwm eang ac effeithiol iawn. Mae'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus dros ben. Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn ardderchog ac yn eu hysgogi i ddysgu'n bwrpasol. Mae'r lleoliad yn datblygu cyfleoedd gwerthfawr i blant i gymryd rhan yn y cynllunio a mynegi eu diddordebau yn y themâu tymhorol. Maent yn mapio eu syniadau fel man cychwyn i bob thema. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gymhelliant y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'n drwyadl, sy'n effeithio dysgu'r plant yn wych, sy'n cynnwys sicrhau bod plant yn darllen, ysgrifennu a defnyddio rhifau'n effeithiol iawn. Maent yn trafod themâu a gweithgareddau mewn cyfarfodydd wythnosol ac mae un o'r perchnogion yn trefnu'r cynllunio o weithgareddau arloesol y thema yn effeithlon. Mae ymarferwyr a phlant yn cyfrannu eu syniadau i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae'r ymarferwyr felly, yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau hyblyg a llwyddiannus iawn.

Mae'r profiadau dysgu ysgogol, sy'n cynnwys gweithgareddau heriol fel rasio malwod a phobi croissants, yn darparu dilyniant a pharhad yn dysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn herio pob plentyn ym mhob maes dysgu, yn enwedig mewn tasgau llythrennedd a rhifedd. Mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Mae'n cysylltu'n gyson ac yn llwyddiannus i strategaethau asesu'r lleoliad i dargedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol. Mae'r arfer hwn yn sythweledol ac effeithiol iawn.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a meddwl y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu, sy'n herio pob plentyn yn gyson. Cydlynir y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn bwrpasol fel bod cydlyniad ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn rhagorol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r iaith yn ardderchog. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl yn eu dysgu trwy ymarferion arloesol gydag unigolion a grwpiau penodol o blant, sy'n cynnwys defnydd pwrpasol o TGCh ac ystod eang o lyfrau darllen. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru yn llwyddiannus iawn, sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Mae'r lleoliad hefyd yn noddi gweithgareddau ar gyfer y rhieni a'r plant mewn dathliadau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddinas. Mae hyn yn agwedd arloesol o waith y lleoliad i gefnogi'r iaith Gymraeg ac atgyfnerthu ethos y lleoliad tuag at yr iaith.

Mae'r deunyddiau a'r dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n wybodus i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn. Mae'r cynllunio o wneud marciau a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ysgogol a deniadol. Maent yn ddilyniadol a heriol, sy'n annog plant i wneud marciau ac ymchwilio i briodweddau rhifau a siapiau. Mae hyn yn cynnwys herio plant unigol i ddarllen yn rheolaidd ac i ysgrifennu eu henwau eu hunain, teitlau ar arddangosfeydd ac ymadroddion penodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn amlwg trwy ddefnyddio cyfrifiaduron, llechi electronig, camerâu, tiliau, teganau electronig, chwaraewyr cryno ddisg a chlustffonau. Mae hyn yn mwyhau medrau TGCh y plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant i ddatblygu mewn i ddysgwyr annibynnol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn ddeallus. Er enghraifft, defnyddio arian er mwyn i blant ymchwilio i'r gwahaniaeth rhwng un, pump a deg ceiniog ac ymholi mewn i ddiwylliant a phrif nodweddion gwahanol wledydd fel Ffrainc.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rhagorol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae ymweliadau i'r gymuned leol a chanol Caerdydd yn ychwanegu diddordeb a dealltwriaeth i'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys ymweld ag amgueddfeydd, teithio ar drafnidiaeth leol ac ymweld â siopau gwahanol. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, arbenigwyr ag anifeiliaid egsotig a rhieni â babanod, yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn y gymuned.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol iawn sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae'r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd i'r plant.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae disgwyliadau uchel ganddynt ar gyfer yr holl blant ac maent yn herio'r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws. Mae'r perchnogion a'r ymarferwyr â chydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u harwain gan oedolion. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol mewn gweithgareddau a chwarae'r plant i ysgogi a chymell y plant. Mae pob ymarferwr yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiwn.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog.  Mae’r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd.  Mae’r holl ymarferwyr yn weithredol ac maent yn deall y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad ymarferol.  Mae systemau’r lleoliad i dargedu datblygiad geiriau a phatrymau iaith y Gymraeg drwy atgyfnerthiadau parhaol a dylanwadol drwy gydol pob sesiwn yn llwyddiannus dros ben.  Mae hyn yn arfer rhagorol.

Mae’r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol.  Maent yn fodelau iaith ardderchog eu hunain ac maent yn darparu amgylchedd cyffrous y tu mewn a thu allan i’r adeilad.  Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.  Maent yn defnyddio cwestiynu’n effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant.  Cryfder yn y maes yma yw parodrwydd yr ymarferwyr i gael y plant i werthfawrogi eu gwaith eu hun a gwaith plant eraill yn rheolaidd, yn enwedig yn ystod tasgau ffocws.

Mae'r cofnodion dyddiol o gynnydd a gedwir gan yr ymarferwyr yn drwyadl.  Mae’r ymarferwyr yn cynnwys plant wrth asesu eu dysgu eu hunain ac yn trafod yn synhwyrol â’r plant yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith.  Mae’r holl ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson.  Mae ymarferwyr yn targedu’r camau nesaf yn dysgu plant unigol gyda thrylwyredd.  Mae agweddau o’r arfer hwn yn arloesol.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn llwyddiannus am gyflawniadau eu plant.  Mae’r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg drwy bolisi drws agored y lleoliad, sy’n annog trafodaethau cadarnhaol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant.  Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu’n effeithiol.  Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant.

Mae’r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol.  Er enghraifft, mae cyfleoedd gweithredol ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch.  Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro’n gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed diod o amgylch y bwrdd bwyta.  Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r plant yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau amgylcheddol ac maent yn ail-gylchu papur, cardbord, plastig a bwyd yn effeithiol.  Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithlon.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol a chyson, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.  Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.  Mae gan yr ymarferwyr cymwysterau addas a phrofiad helaeth.  Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol.  Mae’r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau ar glo a dim ond ymarferwyr sy’n eu hagor.  Mae'r ymarferwyr yn ofalus wrth i blant gael eu casglu ac maent yn sicrhau bod y plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae’r lleoliad yn nodi’n effeithiol anghenion dysgu plant pan fyddant yn ymuno.  Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen o gymorth ychwanegol yn derbyn ymyrraeth bwrpasol.  Mae’r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol.  Y perchnogion yw’r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol.  Maent yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer.  Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod.  Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol ac amrywiol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiadir gan yr ymarferwyr.  Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.  Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali a storïau moesol o Affrica.  Mae’r lleoliad hefyd yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau’n bwrpasol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant.  Mae'r adnoddau helaeth yn hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus.  Mae’r gweithgareddau parhaus, y tasgau ffocws a’r cyfleoedd i gyfoethogi yn rhannu adnoddau dysgu yn effeithiol, ac mae eu defnydd gan y plant yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Anogir y plant i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.  Mae hyn yn cynnwys symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan yr adeilad i brofi’r holl feysydd dysgu.

Mae ardal allanol effeithiol yn bodoli, sy'n cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu.  Mae’r lleoliad hefyd yn defnyddio’r ardd yn synhwyrol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol fel helfeydd pryfed.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau’r ardal leol yn rhagorol.  Mae'r lleoliad o ansawdd addas, wedi ei gynnal yn dda ac yn ddiogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae’r arweinyddiaeth ofalgar yn cymell yr ymarferwyr tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol.  Mae'r perchnogion a’r ymarferwyr yn cynllunio’n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant tu mewn i’r adeilad ac yn yr awyr agored.  Mae’r perchnogion yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau’n llwyddiannus.

Maent yn rheoli’r addysgu a’r dysgu’n dda ac mae disgwyliadau’r holl ymarferwyr yn uchel.

Mae’r perchnogion cefnogol yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac maent yn cydweithio'n frwdfrydig fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad yr awdurdod lleol yn effeithiol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd yr ymarferwyr.

Mae’r perchnogion yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau fel y gromen helyg a’r ardaloedd plannu yn yr ardal allanol. Mae ganddynt ffocws glir ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu priodol yn ddogfen weithredol. Mae prosesau cefnogol y perchnogion yn sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael i gwrdd â’r amcanion gwella. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn adnabod pob blaenoriaeth yn glir trwy broses hunanarfarnu'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r polisïau yn weithredol ac mae’r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol, fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen a’r asesiadau newydd i nodi mannau cychwyn pob plentyn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r hunanarfarnu’n cymryd ystyriaeth bwrpasol o farn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr a’r awdurdod lleol. Mae hyn o fudd i ddatblygiad y lleoliad. Mae’r perchnogion yn dangos yn glir sut y maent wedi gwella’r ddarpariaeth dros amser, trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu’r ardal allanol yn sylweddol a chynllunio profiadau dysgu ardderchog.

Mae’r holl ymarferwyr yn wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Mae’r perchnogion wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau’r plant a’r ddarpariaeth. Mae cydweithio effeithiol o ddydd i ddydd yn cyflawni hyn. Mae’r ymarferwyr yn asesu’n gydwybodol ac maent yn rhannu syniadau’n synhwyrol. Mae’r perchnogion yn defnyddio’r cyllid yn effeithlon ar gyfer adnoddau o ansawdd da a lefelau uchel o staffio.

Mae’r meysydd i’w datblygu yn cael eu cydnabod yn briodol fel atgyfnerthu medrau rhifedd y plant yn ddyddiol ac ail-strwythuro’r cyfarpar yn yr ardal allanol. Mae’r perchnogion yn cymryd camau i gynnal arferion effeithiol a rhoi newidiadau ar waith. Mae cysylltiadau priodol yn bodoli rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy’n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad. Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw’r hunanarfarnu bob amser yn arwain gyda digon o fanylder tuag at dargedau penodol.

Mae’r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Mae'r ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o bartneriaethau'n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles y plant. Mae'r perchnogion ac ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni'n rheolaidd am bob agwedd o waith a digwyddiadau'r lleoliad. Mae rhieni a gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod ag ymarferwyr yn ddyddiol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cysylltiadau cadarn gydag ysgolion lleol. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn elwa'r lleoliad yn briodol, drwy weithredu hyfforddiant a chynghori'r ymarferwyr. Mae'r cydweithrediad parod rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol yn fuddiol i ddatblygiad y lleoliad. Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau'n helpu symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu at ddarpariaeth bwrpasol ac arweinyddiaeth effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol helaeth yn rhagorol i gefnogi dysgu'r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gadarnhaol ac mae'n anelu'n gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu effeithiol yr holl ymarferwyr.

Mae'r perchnogion yn llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant addas. Mae'r cynllunio o brofiadau dysgu yn rhagorol. Mae'n gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithio rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau cadarnhaol gyda'r awdurdod lleol, y gymuned leol ac ysgolion y ddinas. Mae'r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at addysgu a dysgu effeithiol.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae dealltwriaeth glir o'r gyllideb gan y perchnogion ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu'r safonau gorau posibl o fewn ei gyllideb o ran yr adeilad ac adnoddau.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd darpariaeth effeithiol yr ymarferwyr, y profiadau dysgu rhagorol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 9 | 9<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 9 | 8<br>89% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 9 | 8<br>89% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 4 | 2<br>50% | 2<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 2<br>20% | 7<br>70% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 10<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 9 | 8<br>89% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |